CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Yr Hen Lys
Sgwâr Sant Pedr
RHUTHUN
LL15 1AA
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk

The Old Courthouse
St. Peter's Square
RUTHIN
LL15 1AA
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams

1 Rhagfyr 2020

Cynhelir cyfarfod y **PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU** trwy gyfrwng **Zoom, nos Lun, 7 Rhagfyr 2020 am 7:45pm** i drafod y busnes isod.

Sandra Williams

Sandra Williams, Clerc y Dref

AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGAN BUDDIANNAU**
   Datgelu budd personol ac ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**
   Cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2020 yn gywir.

4. **MATERION YN CODI**

5. **PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**
   Derbyn manylion y penderfyniadau cynllunio a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych.

6. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
   Gellir gweld ceisiadau cynllunio ar-lein yn:
   https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/planning-and-building-regulations/search-and-comment-on-applications.aspx
   02/2020/0845 – Ty'n y Wern, Ffordd Corwen, Rhuthun
   Adeiladu adeilad amaethyddol ar gyfer da byw
   02/2020/0393 - 20 Parc y Castell, Rhuthun
   Dymchwel ystafell ardd y tu cefn ac adeiladu estyniad unllawr yn y cefn. Newid garej ac addasiadau i'r to i ganiatáu ffurfio llety y gellir byw ynddo ar lefel llawr gwaelod a llawr cyntaf
   02/2020/0854 - 23 Stryd Clwyd, Rhuthun
   Newid defnydd o siop (Defnydd Dosbarth A1) i Swyddfa Cyfreithwyr (Defnydd Dosbarth A2)
   02/2020/0855 - 23 Stryd Clwyd, Rhuthun
   Arddangos hysbysebion/arwyddion yn gysylltiedig â chyfreithwyr
   02/2020/0819 - 40 Bro Deg, Rhuthun
   Adeiladu estyniad unllawr ar ochr yr annedd a gwaith cysylltiedig

02/2020/0912 - Caerafallen, Rhuthun
Dymchwel y golchdy presennol, adeiladu estyniad newydd yn cynnwys addasiadau mewnol, ffenestri a drysau newydd a gwaith trwsio (cais Adeilad Rhestredig)
02/2020/0939 – Castell Rhuthun, Stryd y Castell, Rhuthun
Gwaith ar goed amrywiol sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed 21 cyn Gyngor Sir Ddinbych
Unrhyw geisiadau cynllunio eraill a dderbynnir cyn y cyfarfod

7. DIWEDDARIAD YNGHYLCH GORCHYMYN DIOGELU COED 02/2020/0107 4 CAE CASTAN, RHUTHUN

Derbyn ac ystyried neges gan y Swyddog Cynllunio – "Ar ôl i mi a'r Ymgynghorydd Coed asesu'r cais, canfuwyd nad yw'r goeden gastan dan sylw, nesaf at ardd ochr 4 Cae Castan, wedi'i diogelu gan y Gorchymyn Diogelu Coed fel y tybiwyd yn wreiddiol. Mae'n ffurfio un o res o bump castanwydden yn yr ardal hon.
Mae'r Ymgynghorydd Coed wedi ymweld â'r safle ac ystyried yr amgylchiadau, ac nid oes ganddo wrthwynebiad i dorri'r goeden sy'n agos at yr annedd. Fodd bynnag, maen nhw'n o'r farn fod y bedair coeden arall sydd yn y rhes yn cynnig amwynder arwyddocaol a dylid eu gwarchod fel grŵp. Mae'r Ymgynghorydd Coed wedi darparu'r dogfennau perthnasol i lunio Gorchymyn Diogelu Coed newydd ar y pedair coeden sy'n weddill ac mae'r rhain wedi'u trosglwyddo i'r Swyddog Cyfreithiol."

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor **nos Lun, 11 Ionawr 2021** am 7.45pm.